**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-06-1300
Ein cyf/Our ref: RE/00727/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

21 Medi 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr ynglŷn â 'Deiseb P-06-1300 Dylid adolygu'r penderfyniad yn caniatáu i awdurdodau lleol gynyddu premiymau'r dreth gyngor ar ail gartrefi i 300 y cant'.

Mae sicrhau y gall pobl leol fyw yn fforddiadwy yn y cymunedau lle cawsant eu magu, a sicrhau iechyd a bywiogrwydd y Gymraeg fel iaith sy'n ffynnu yn y gymuned, yn flaenoriaethau allweddol gan Lywodraeth Cymru.

Rydym yn cydnabod y gall perchnogion ail gartrefi wneud cyfraniad pwysig i'n heconomïau lleol ac rydyn ni yng Nghymru yn trysori ein henw da fel cymdeithas groesawgar. Fodd bynnag, rydym eisiau sicrhau bod pob perchennog tŷ a phob busnes yn gwneud cyfraniad teg i'r cymunedau lle maent yn berchen ar eiddo, neu'n gosod eiddo. Dyna pam y gwnaethom ymgynghori ar y newidiadau posibl i drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a lletyau hunanddarpar, fel un rhan o ddull tair elfen Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â materion fforddiadwyedd a'r effaith y gall niferoedd mawr o ail gartrefi a chartrefi gwyliau ei gael ar gymunedau a'r Gymraeg.

Gwahoddwyd safbwyntiau ar y polisi y tu ôl i'r cynlluniau hyn fel rhan o ymgynghoriad 12 wythnos a oedd yn edrych ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a lletyau hunanddarpar. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 25 Awst a 17 Tachwedd 2021 ac fe gafwyd bron i 1,000 o ymatebion. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ar 1 Mawrth.

Wrth lunio'r polisi hwn, ystyriwyd amryw o dystiolaeth gan gynnwys yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Ar ôl ystyried y dystiolaeth yn ofalus, cafodd Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Anheddau Gwag Hirdymor ac Anheddau a Feddiennir yn Gyfnodol) (Cymru) 2022 eu gwneud. Roedd y rhain yn cynyddu uchafswm premiymau'r dreth gyngor y gall awdurdodau

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

lleol ddewis eu gosod ar ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor i 300%. Daw hyn i rym o 1 Ebrill 2023.

Roedd angen [Memorandwm Esboniadol] i gyd-fynd â'r Rheoliadau. Mae Rhan 2 o'r ddogfen hon yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) o'r Rheoliadau. Mae Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn rhan hanfodol o'r broses o lunio polisïau a deddfu. Maent yn rhoi gwybodaeth am effaith debygol y ddeddfwriaeth arfaethedig i Weinidogion Cymru, y Swyddog Cyfrifyddu, Senedd Cymru a rhanddeiliaid.

Roedd y ddeddfwriaeth yn destun craffu a dadl ac fe gafodd ei chymeradwyo drwy'r weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd ar 22 Mawrth. Mae adroddiad craffu'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Rheoliadau ar gael yn:.sub-ld14989-w.pdf (senedd.cymru).

Mae'r gallu i gynyddu premiymau'r dreth gyngor wedi'i groesawu fel dull i awdurdodau lleol liniaru'r effaith negyddol y gall ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor ei gael. Er nad yw llawer o'r cyfleoedd ar gyfer mynd i'r afael â materion tai drwy bremiymau wedi'u gwireddu'n llawn eto, bydd codi'r uchafswm lefel yn galluogi i awdurdodau lleol benderfynu ar lefel sy'n briodol ar gyfer eu hamgylchiadau unigol ar adeg sy'n addas iddyn nhw. Awdurdodau unigol fydd yn penderfynu a ddylid defnyddio'r uchafswm uwch a ganiateir ar gyfer premiymau treth gyngor. Ni ddylid tybio y bydd yr awdurdodau yn symud i'r uchafswm newydd o 300% o 1 Ebrill 2023.

Mae angen i bob awdurdod ystyried yr holl effeithiau posibl wrth benderfynu a ddylid gwneud defnydd o'u pwerau dewisol i gyflwyno premiwm, a rhaid gwneud asesiad llawn o'r effeithiau posibl. Mae hyn yn cynnwys ystyried effaith cyflwyno premiymau ar gymunedau, y farchnad dai a'r economi leol. Gall pob awdurdod lleol osod premiwm ar unrhyw lefel hyd at yr uchafswm a gellir gosod premiymau gwahanol ar ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor. Mater ar gyfer awdurdodau unigol yw penderfynu a ydynt yn dymuno defnyddio eu pwerau dewisol i leihau atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor mewn perthynas â phremiwm.

Wrth gyhoeddi'r ymgynghoriad, bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried sut i gyrraedd ei chynulleidfa darged. I roi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a lletyau hunanddarpar, cyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig yn cyhoeddi lansio'r ymgynghoriad. Cyhoeddwyd y datganiad ar wefan Llywodraeth Cymru a'i ddosbarthu i Aelodau'r Senedd fel y gallent ddod â'r ymgynghoriad i sylw eu hetholwyr. Yn ogystal, rhoddodd Llywodraeth Cymru wybod i amryw o randdeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, cyrff cynrychiadol y sector a chymdeithasau/cyrff proffesiynol perthnasol. Gofynnwyd i bob un ohonynt rannu manylion yr ymgynghoriad.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi defnyddio ei sianelau cyfryngau cymdeithasol i roi cyhoeddusrwydd i lansiad yr ymgynghoriad. Yn aml, tynnir sylw at faterion yn ymwneud ag ail gartrefi, llety hunanddarpar a phremiymau'r dreth gyngor yn y cyfryngau ac fe gafodd yr ymgynghoriad sylw eang yn y cyfryngau lleol a chenedlaethol.

Rydym yn gwerthfawrogi barn ein rhanddeilaid. Er mwyn sicrhau y gall ein dinasyddion gyfrannu at ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru ar y dreth gyngor yn y dyfodol, rwy'n eu

hannog i gofrestru i gael newyddlenni rheolaidd ar e-bost am ein hymgyngoriadau
[Tanysgrifiwch i gael newyddlenni dros e-bost | LLYW.CYMRU]

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government